**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Deisebau

**National Assembly for Wales**
Petitions Committee

**CAER(5)-4-20 Papur i'w nodi 3**

Dawn Bowden AC
Cadeirydd, y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddDiwygio@cynulliad.cymru

24 Ionawr 2020

Annwyl Dawn

**Goblygiadau posibl yn sgil unrhyw newid ym maint y Cynulliad**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr 2019 yn gofyn am ein barn am y goblygiadau posibl i Bwyllgorau'r Cynulliad yn sgil unrhyw newid ym maint y Cynulliad.

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi trafod y materion penodol a godwyd ac mae'n ymateb gyda'r sylwadau cyffredinol a ganlyn:

*P'un a yw maint presennol y Cynulliad wedi arwain at unrhyw oblygiadau neu gyfyngiadau ar waith eich Pwyllgor neu'r ffordd yr ydych yn mynd i'r afael â'r gwaith o graffu ar bolisi a gwaith craffu deddfwriaethol ac ariannol ar y materion yn eich cylch gwaith.*

Rydym o'r farn bod maint y Cynulliad yn effeithio ar y gwaith y gall pwyllgorau ei wneud, yn bennaf oherwydd lefel y galw sydd ar Aelodau'r Cynulliad ar hyn o bryd. Oherwydd maint presennol y Cynulliad, mae nifer o Aelodau yn aelodau o sawl pwyllgor, sy'n cyfyngu ar faint pwyllgorau a'r amser sydd ar gael iddynt gyfarfod. Mae amserlen gyfredol y pwyllgor wedi cael ei chynllunio, yn rhannol, i leihau gwrthdaro yn amserlenni'r Aelodau oherwydd pwyllgorau yn cyfarfod ar yr un pryd.

Mae'r materion hyn yn gyffredin i bob pwyllgor, ond mae'r effaith benodol ar y Pwyllgor Deisebau ar hyn o bryd yn ymwneud â'r ffaith ei fod yn cyfarfod am ddwy awr bob pythefnos. Mae hyn yn dylanwadu ar drefn a strwythur y cyfarfodydd, gan ei fod yn cyfyngu ar yr amser sydd ar gael i gymryd tystiolaeth fanylach ar y materion a godir yn y deisebau. Felly, wrth amserlennu sesiynau o'r fath, rhaid i'r

Pwyllgor flaenoriaethu'n gadarn i sicrhau ystyriaeth deg i bob deiseb sy'n dod ger ein bron, tra byddwn hefyd yn cynnal gwaith craffu manwl lle bo hynny'n bosibl ac yn fuddiol.

Pe bai ganddo fwy o ryddid i gynnal cyfarfodydd hwy neu i gyfarfod yn amlach, byddai gan y Pwyllgor y gallu i gymryd mwy o dystiolaeth deisebwyr wyneb yn wyneb a chynnal mwy o ymholiadau manwl.

*Sut y gallai unrhyw newidiadau diweddar neu ddisgwyliedig i  bwerau neu gyfrifoldebau'r Cynulliad, neu'r cyd-destun cyfansoddiadol ehangach, effeithio ar gylch gwaith eich Pwyllgor neu sut rydych chi'n cyflawni eich rôl.*

Mae'n bosibl y byddai newidiadau i bwerau a chyfrifoldebau'r Cynulliad yn effeithio ar y Pwyllgor Deisebau trwy ehangu cwmpas y broses ddeisebu. O dan y rheolau ynghylch derbynioldeb deisebau i'r Cynulliad, mae gofyniad bod y camau gweithredu y gofynnir amdanynt o fewn pwerau'r Cynulliad neu bwerau Llywodraeth Cymru. Felly, gallai ehangu cwmpas y pwerau hynny neu'r cyfrifoldebau hynny arwain at gynnydd cyfatebol yn nifer y deisebau derbyniadwy a gyflwynir. Fodd bynnag, byddai'n anodd rhagweld yn fanwl gywir effaith unrhyw newid penodol.

*Unrhyw oblygiadau y gallai cynnydd ym maint y Cynulliad eu cael i waith pwyllgorau'r Cynulliad, gan gynnwys y gwasanaethau cymorth y maent yn eu derbyn.*

Rydym o'r farn y byddai goblygiadau posibl yn sgil y ddau fater uchod ar gyfer capasiti gwasanaethau cymorth presennol y broses ddeisebau a'r Pwyllgor Deisebau, yn enwedig mewn perthynas â'r cymorth gweinyddol sydd ei angen i redeg y broses ddeisebau a'r Pwyllgor Deisebau. Gallai Pwyllgor Deisebau yn y dyfodol liniaru effaith y newidiadau hyn rywfaint drwy wneud newidiadau i'w ffyrdd o weithio, ond mae'n debygol y byddai cynnydd yn nifer cyfarfodydd y Pwyllgor a/neu yn nifer ei sesiynau craffu manwl yn golygu cynnydd yn lefel y cymorth a fyddai ei angen.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol. Byddem yn hapus i roi mwy o fanylion yn ôl yr angen.

Yn gywir



Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd